OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1175 (Cy.123) (C.31)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 9) (Cymru) 2002

Wedi'i wneud - - 25 Ebrill 2002

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 118 (5), (6) a 122 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**):

Enwi, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 9) (Cymru) 2002.

(2) Yn y Gorchymyn hwn mae cyfeiriad at adran yn gyfeiriad at adran yn Neddf Safonau Gofal 2000.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Y diwrnod a bennir

2.—(1) At ddiben arfer unrhyw bŵ er i wneud gorchmynion, rheoliadau neu reolau neu i baratoi codau ymarfer a'u cyhoeddi yn unig, 30 Ebrill 2002 yw'r diwrnod a bennir i adrannau 56 i 62, 64(2) i (4) a 65 ddod i rym.

(2) 30 Ebrill 2002 yw'r diwrnod a bennir i adran 71 ddod i rym i'r graddau nad yw eisoes mewn grym.

(**1**) 2000 p.14. Mae'r pwerau yn arferadwy gan y Gweinidog priodol ("appropriate Minister"). Diffinnir yr "appropriate Minister" yn adran 121(1). Mae'n golygu'r Cynulliad mewn perthynas â Chymru (mae adran 5(b) yn darpau mai ystyr "y Cynulliad" yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru); mewn perthynas â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae'n golygu'r Ysgrifennydd Gwladol.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

D. Elis-Thomas
25 Ebrill 2002 Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

(**2**) 1998 p.38.

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 30 Ebrill 2002 fel y diwrnod y bydd darpariaethau penodol yn Rhan IV o'r Ddeddf Safonau Gofal ("y Ddeddf") yn dod i rym i'r graddau y mae'r darpariaethau yn rhoi pwerau, mewn perthynas â Chymru, i wneud gorchmynion, rheoliadau neu reolau, neu i baratoi codau ymarfer a'u cyhoeddi.

Mae'r darpariaethau yn ymwneud â chofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol (adran 56 a 60 o'r Ddeddf); defnyddio'r teitl "gweithiwr cymdeithasol" (adran 61); codau ymarfer ynglŷn â safonau ymddygiad a safonau ymarfer y disgwylir i weithwyr gofal cymdeithasol a'u cyflogwyr lynu wrthynt (adran 62); cymwysterau gwaith cymdeithasol a gafwyd y tu allan i Gymru (adran 64); a hyfforddiant gweithwyr gofal cymdeithasol ar ôl iddynt gael eu cofrestru (adran 65).

Mae'r Gorchymyn yn pennu 30 Ebrill 2002 hefyd fel y diwrnod y bydd adran 71 o'r Ddeddf yn dod i rym, i'r graddau nad yw eisoes mewn grym. Mae adran 71 yn gwneud darpariaeth am reolau sy'n cael eu gwneud o dan Ran IV.

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae darpariaethau Deddf Safonau Gofal 2000 ("y Ddeddf") y gwneir cofnod ynglŷ n â hwy yn y Tabl isod wedi'u dwyn i rym mewn perthynas â Chymru ar y dyddiad sydd wedi'i bennu ochr yn ochr â'r cofnod amdanynt. Daethpwyd â'r darpariaethau hynny y mae "(**a**)" ar eu hôl i rym gan O.S. 2000/2992 (Cy. 192) (C.93); daethpwyd â'r rhai y mae "(**b**)" ar eu hôl i rym gan O.S. 2001/139 (Cy. 5) (C.7); daethpwyd â'r rhai y mae "(**c**)" ar eu hôl i rym gan O.S. 2001/2190 (Cy. 152) (C.70); daethpwyd â'r rhai y mae "(**ch**)" ar eu hôl i rym gan O.S. 2001/2354 (Cy. 192) (C.80); daethpwyd â'r rhai y mae "(**d**)" ar eu hôl i rym gan O.S. 2001/2504 (Cy. 205) (C.82); daethpwyd â'r rhai y mae "(**dd**)" ar eu hôl i rym gan O.S. 2001/2538 (Cy. 213) (C.83); daethpwyd â'r rhai y mae "(**e**)" ar eu hôl i rym gan O.S. 2001/2782 (Cy. 235) (C.92); a daethpwyd â'r rhai y mae "(**f**)" ar eu hôl i rym gan O.S. 2002/920 (Cy.108) (C.24).

Y Ddarpariaeth	*Dyddiad Cychwyn*
Adrannau 1—5 (**c**)	18 Mehefin 2001
Adran 7(7) (**c**)	18 Mehefin 2001
Adran 8 (yn rhannol) (**c**)	18 Mehefin 2001
Adran 9(2) (yn rhannol) (**f**)	1 Ebrill 2002
Adran 9(3)—(5) (**c**)	18 Mehefin 2001
Adran 10(2)—(7) (yn rhannol) (**f**)	1 Ebrill 2002
Adrannau 11—12 (yn rhannol) (**c**)	18 Mehefin 2001
Adran 11—12 (yn rhannol) (**f**)	1 Ebrill 2002
Adran 13 (yn rhannol) (**f**)	1 Ebrill 2002
Adrannau 14—15 (yn rhannol) (**c**)	18 Mehefin 2001